

# Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd – Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Blwyddyn archwilio: 2020

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3034A2022

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran y modd y mae'r sefydliadau hynny wedi defnyddio eu hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020

Nid yw Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o ran unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog, neu gyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, neu unrhyw drydydd parti o ran yr adroddiad hwn.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru: [swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Adroddiad cryno	
Ynglŷn â'r adroddiad hwn	4
Negeseuon allweddol	5
Argymhellion	6
Adroddiad manwl	
Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau	8
Diwylliant sefydliadol	14
Strwythurau a phrosesau llywodraethu	21
Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd	25
Atodiadau	
Atodiad 1 – Ymateb rheolwyr i'r argymhellion archwilio	28
Atodiad 2 – Canfyddiadau'r Arolwg Staff	29

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

- 1 Dylai ansawdd fod 'wrth wraidd' pob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau uwchlaw popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n tanategu'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael hefyd fod yn gostus o ran niwed, gwastraff, ac amrywiad. Mae angen i sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt fod â fframwaith llywodraethu cadarn i helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel ac effeithiol o ansawdd da. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro a lle bo angen, gwella safonau gofal.
- 2 Mae'r ymgais i wella ansawdd wedi cael ei atgyfnerthu mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol dilynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau o ansawdd ar draws systemau cyfan, yn ogystal â gosod dyletswydd gonestrwydd ar gyrff y GIG, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored a gonest pan fydd pethau'n mynd o chwith er mwyn dysgu gwersi. Mae'r Ddeddf yn dynodi bod ansawdd yn cynnwys effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau ond nad yw'n gyfyngedig i hynny. Nid yw'r canllawiau statudol mewn cysylltiad â'r Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd wedi bod yn destun ymgynghoriad hyd yma ond disgwylir hyn yn yr hydref 2022. Nid yw'r dyddiad ar gyfer deddfu'r ddwy ddyletswydd wedi'i bennu eto ond rhagwelir y bydd yn ystod 2023-24.
- 3 Rhaid i ansawdd a diogelwch dreiddio drwy bob agwedd ar gynllunio a darparu gwasanaethau a bod yn eglur yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel bwrdd a thrwy eu holl wasanaethau, partneriaethau, a lleoliadau gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi cyfeirio at heriau amrywiol, gan gynnwys yr angen i wella llifoedd sicrwydd mewn cysylltiad ag ansawdd a diogelwch, goruchwyliaeth ar archwilio clinigol, a gwaith i dracio canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu hefyd bryderon proffil uchel ynghylch ansawdd gofal a dulliau llywodraethu cysylltiedig yng nghyrrff unigol y GIG.
- 4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael y sicrwydd bod trefniadau llywodraethu ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn canolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio presennol GIG Cymru yn adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu ansawdd yn cefnogi goruchwyliaeth sefydliadol dda ar y niweidiau hyn fel rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

- 5 Fe wnaeth ein harchwiliad archwilio pa un a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad o gymorth i ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd da. Fe wnaethom ganolbwyntio ar y dull sefydliadol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, diwylliant ac ymddygiadau sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifoedd gwybodaeth a phrosesau adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith yn Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre (yr Ymddiriedolaeth) a gynhaliwyd rhwng mis Mehefin 2021 a mis Mai 20221. I brofi trefniadau o'r 'llawr i'r bwrdd', fe wnaethom archwilio'r trefniadau yng Nghanolfan Ganser Felindre (CGF) a Gwasanaeth Gwaed Cymru (GGC).

## Negeseuon allweddol

- 6 Ar y cyfan, canfuom fod **cynnydd sylweddol wedi'i wneud i wella trefniadau llywodraethu ansawdd yr Ymddiriedolaeth.**
- 7 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cymeradwyo Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd. Mae'n nodi'r trefniadau y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu dilyn er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau ansawdd a diogelwch o'r llawr i'r Bwrdd, i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau a nodi'r uchelgais i sicrhau yr ymwreiddir dysgu a gwella. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi nodi blaenoriaethau ansawdd uchelgeisiol ac mae ganddi drefniadau priodol i fonitro'r gwaith o gyflawni. Fodd bynnag, nid yw blaenoriaethau ansawdd yn benodol nac wedi eu cyfyngu i amser penodol, ac felly nid yw'n hawdd asesu a ydynt wedi'u cyflawni. Gwnaed cynnydd da o ran gwella trefniadau rheoli risg, ond mae lle i wneud gwelliannau i wella'r gwaith craffu ar gofrestrau risgiau a blaenoriaethau strategol.
- 8 Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddiwylliant agored ac un o ddysgu ac mae wedi ymrwymo i ddysgu oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae trefniadau da i gasglu adborth a phrofiadau defnyddwyr gwasanaethau a staff ac i rannu'r rhain. Mae rhai staff yn tybio efallai na fydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn ymateb i bryderon nac yn cymryd camau i fynd i'r afael â bwlio neu aflonyddu. Mae gwaith i ddeall barn a fynegwyd yn Arolwg Staff y GIG ar waith.
- 9 Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd a'r gwaith arfaethedig i weithredu'r Hybiau Ansawdd wedi gosod y strwythurau llywodraethu ansawdd a diogelwch gweithredol a llifoedd sicrwydd i gefnogi llywodraethu ansawdd. Mae adnoddau priodol wedi eu nodi ar gyfer llywodraethu ansawdd ac mae cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau.
- 10 Mae agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dod yn fwy hylaw ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol. Fodd bynnag, mae amseroldeb rhai data a gwybodaeth yn her i waith craffu effeithiol.

<sup>1</sup> Ar wahanol adegau yn yr adolygiad, fe wnaethom ni oedi ein gwaith, er mwyn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth ymateb i'r pandemig.

## Argymhellion

- 11 Nodir manylion yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Crynhoir ymateb rheolwyr yr Ymddiriedolaeth i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

### Arddangosyn 1: argymhellion

#### Argymhellion

##### Blaenoriaethau ansawdd

- A1 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth wedi datblygu deg Nod Gwella Ansawdd newydd yn ddiweddar; fodd bynnag, nid ydynt yn benodol nac wedi eu cyfyngu i amser penodol, ac felly nid yw'n hawdd asesu a ydynt wedi'u cyflawni mewn pryd. Wrth symud ymlaen, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod Nodau Gwella Ansawdd yn cael eu hategu gan weithredoedd penodol, wedi eu cyfyngu i amser penodol.

##### Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

- A2 Hyd yn hyn mae gwaith pwyllgorau'r Bwrdd yn craffu ar Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd wedi canolbwyntio ar ei ddatblygiad a'i fformat. Cyn gynted â phosibl, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod pob pwyllgor yn ymgorffori adolygiad o'r risgiau strategol a bennir ar eu cyfer o fewn eu cylchoedd busnes a:
- rhoi ystyriaeth briodol i bob un o'r rheolaethau a ffynonellau sicrwydd, a
  - chraffu ar gynnydd i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd.

##### Gwybodaeth am risgiau ar gyfer gwaith craffu

- A3 Nid yw cofrestrau risgiau a gyflwynir i gyfarfodydd bob amser yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu gwaith craffu da. Dylai'r Ymddiriedolaeth wneud y canlynol:
- penderfynu pa wybodaeth sydd ei hangen mewn cofrestrau risgiau (gan gynnwys y Gofrestr Risgiau Corfforaethol) i alluogi gwaith craffu a her dda (megis cynnwys sgoriau risg agor, presennol a tharged, a digon o eglurder ar reolaethau presennol a chymau gweithredu lliniaru);
  - os yw risgiau sy'n ymddangos yng Nghofrestr Risgiau yr Ymddiriedolaeth wedi'u trafod mewn eitemau eraill ar yr agenda, dylid darparu croesgyfeiriadau addas yn yr **adroddiad clwr**; a
  - dylai perchnogion risgiau gweithredol arwain trafodaethau ar risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb.

## Argymhellion

### Cam Gweithredu i ymdrin â chanlyniadau'r arolwg staff

- A4 Arafwyd y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu ledled yr Ymddiriedolaeth i ymdrin â chanfyddiadau Arolwg Staff y GIG oherwydd effaith y pandemig. Dylai'r Ymddiriedolaeth fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r cynllun gweithredu cyn gynted â phosibl a:
- gweithio i ddeall pam y mae rhai staff yn teimlo nad yw'r Ymddiriedolaeth yn cymryd camau effeithiol i ymdrin â bwlio, aflonyddu neu gam-drin; a
  - gweithio i ddeall pam y gallai rhai staff deimlo nad yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n ddigonol i fynd i'r afael â phryderon.

### Llifoedd sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch

- A5 Roedd rhai a oedd yn bresennol mewn cyfarfodydd a oedd yn ystyried materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch yn CGF yn teimlo bod achosion o ddyblu sylw, ac nad oedd pob cyfarfod â chynrychiolaeth briodol. Wrth weithredu'r Hybiau Ansawdd, dylai'r Ymddiriedolaeth wneud y canlynol ar gyfer CGF a GGC ac ar draws yr Ymddiriedolaeth gyfan;
- sicrhau bod strwythurai'r grŵp a chylchoedd gwaith cyfarfodydd yn osgoi dyblygu sylw yn ddiangen;
  - sicrhau bod y rhai sy'n bresennol ym mhob cyfarfod yn rhai priodol ac yn rhoi cynrychiolaeth ddigonol o ddisgyblaethau perthnasol; a
  - sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth wedi mynegi'n glir pa gyfarfodydd sy'n ystyried materion o ansawdd a diogelwch a'u llinellau adrodd.

### Gwybodaeth am ansawdd a diogelwch

- A6 Mae gwybodaeth mewn adroddiadau a data perfformiad weithiau wedi dyddio. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau, cyn belled â phosibl, fod data a gwybodaeth a gyflwynir i gyfarfod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad mor gyfredol â phosibl, gan gwmpasu cyfnodau amser cytunedig.

# Adroddiad Manwl

## Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau

- 12 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae blaenoriaethau wedi'u diffinio'n eglur ar gyfer ansawdd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau ac i ba raddau y llinierir y risgiau i'w cyflawni'n effeithiol.
- 13 Canfuom fod y **Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd yn nodi trefniadau a chyfrifoldebau ansawdd a diogelwch clir. Mae blaenoriaethau ansawdd uchelgeisiol gyda threfniadau priodol i fonitro'r gwaith cyflawni, fodd bynnag, nid yw'n hawdd asesu a ydynt wedi'u cyflawni. Gwnaed cynnydd da i wella trefniadau rheoli risg, ond mae lle i wneud gwelliannau i wella gwaith craffu ar gofrestrau risgiau a risgiau i gyflawni blaenoriaethau strategol.**

## Fframwaith ansawdd a diogelwch

- 14 Canfuom fod y **pandemig wedi effeithio'n andwyol ar gynnydd i adolygu a chwblhau Fframwaith Ansawdd a Diogelwch yr Ymddiriedolaeth. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd yn nodi trefniadau a chyfrifoldebau ansawdd a diogelwch yn eglur.**
- 15 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod ers tro bod angen ailwampio'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch (y Fframwaith AaD) yn sylweddol. Yn 2019, dechreuwyd ar y gwaith i ddatblygu Fframwaith AaD newydd, gyda'r bwriad o gwblhau'r gwaith yn 2020. Fodd bynnag, ni aeth y gwaith yn ei flaen fel y bwriadwyd oherwydd pwysau gweithredol niweidiol sylweddol yn sgil y pandemig.
- 16 Yn gynnar yn 2021, ymgynghorodd yr Ymddiriedolaeth â gweithredwyr, uwch arweinwyr, ac arweinwyr safon gofal iechyd, a chynhaliwyd ymgynghoriad staff yr Ymddiriedolaeth gyfan ym mis Mehefin 2021. Cyhoeddwyd drafft cynnar adeg hynny i ysgogi mwy o sylwadau.
- 17 Effeithiwyd yn andwyol ar y gwaith i ddatblygu'r Fframwaith AaD gan gynnydd arall yn achosion o COVID-19. Bwriad yr Ymddiriedolaeth oedd mynd â'r Fframwaith AaD i gyfarfod mis Ionawr 2022, Fodd bynnag, nododd papur pwyllgor y byddai'n cael ei ohirio tan gyfarfod mis Mawrth oherwydd pwysau a achoswyd gan y pandemig. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wrthwynebiad pan gafodd ei hepgor o agendâu cyfarfod mis Mawrth. Yn yr un modd, nododd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a rannwyd yng nghyfarfod pwyllgor mis Mai 2022 y byddai'r Fframwaith AaD yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwnnw, ond nid oedd gwrthwynebiad pan gafodd ei hepgor o'r agenda.
- 18 Yn 2022, gwnaed sawl newid i'r Fframwaith AaD drafft, o ganlyniad i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yn 2021. Ym mis Gorffennaf 2022, yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith AaD a chefnogi'r Cynllun Gweithredu.
- 19 Roedd cwblhau'r Fframwaith AaD yn flaenoriaeth bwysig ac angenrheidiol i'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Fframwaith AaD newydd yn nodi'r trefniadau y bydd yr



Ymddiriedolaeth yn eu dilyn er mwyn cyflawni ei chyfrifoldebau ansawdd a diogelwch o'r llawr i'r Bwrdd ac yn egluro cyfrifoldebau ac yn nodi'r uchelgais i sicrhau yr ymwreiddir dysgu a gwella. Mae aliniad clir rhwng y Fframwaith AaD a Strategaeth newydd yr Ymddiriedolaeth a strategaethau galluogi ategol.

- 20 Mae'r Cynllun Gweithredu ategol yn nodi'r camau sydd eu hangen i sicrhau bod trefniadau a nodir yn y Fframwaith AaD yn cael eu gweithredu'n llawn. Ar gyfer pob cam gweithredu mae arweinydd dynodedig ac amserlen ar gyfer cyflawni. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod y bydd gweithredu'r Fframwaith AaD yn llawn yn cymryd amser. Fodd bynnag, dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym fod y gwaith a wnaed dros y tair blynedd flaenorol wedi gosod y sylfeini, yn sefydliadol ac yn ddiwylliannol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gosod amserlen uchelgeisiol, ond cyraeddadwy er mwyn i'r camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu ymwreiddio a chael eu gweithredu'n llawn.
- 21 Bydd cynnydd o'i gymharu â'r Cynllun Gweithredu yn cael ei fonitro bob chwarter gan y Bwrdd Rheoli Gweithredol a dwywaith y flwyddyn gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.
- 22 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i adolygu'r Fframwaith AaD yn 2023 ar ôl i'r dyletswyddau a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (gweler **paragraff 2**) gael eu deddfu.

## **Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch defnyddwyr gwasanaethau**

- 23 Gwelsom fod yr **Ymddiriedolaeth yn nodi blaenoriaethau ansawdd uchelgeisiol a bod ganddi drefniadau priodol i fonitro'r gwaith cyflenwi. Fodd bynnag, nid yw blaenoriaethau ansawdd yn benodol nac wedi'u cyfyngu i amser penodol, ac felly nid yw'n hawdd asesu a ydynt wedi'u cyflawni.**
- 24 Roedd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys 12 blaenoriaeth ansawdd yng Nghynllun Tymor Canolig Integredig (CTCI) 2019-2022. Ers hynny, roedd cynlluniau chwarterol 2020-2021 a Chynllun Blynyddol 2021-2022 yn cynnwys blaenoriaethau ansawdd lefel uchel a oedd yn canolbwyntio ar drefniadau ansawdd yn ystod y pandemig<sup>2</sup>. Fodd bynnag, ni chafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad unrhyw adroddiadau yn dangos pa lwyddiant a gafodd yr Ymddiriedolaeth gyda'r gwaith o gyflawni o'i gymharu â'r blaenoriaethau ansawdd hyn.

<sup>2</sup> Gan gynnwys optimeiddio mesurau atal a rheoli heintiau; cryfhau'r broses o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chofnodi profiadau defnyddwyr gwasanaethau; a rhoi mentrau digidol ar waith i sicrhau bod ymgysylltu â chleifion yn parhau drwy gydol y pandemig.

- 25 Yn CTCI 2022-25, cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth raglen waith i fwrw ymlaen â threfniadau ansawdd a diogelwch clinigol a sicrhau y cyflawnir Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r CTCI yn nodi 11 o flaenoriaethau allweddol a gefnogir gan gamau gweithredu penodol gydag amserlen ar gyfer cyflawni. Mae'r blaenoriaethau'n canolbwyntio ar sefydlu'r trefniadau a'r seilwaith y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i fodloni ei chyfrifoldebau ansawdd a diogelwch, ac maent yn cynnwys y canlynol;
- gweithredu'r Fframwaith AaD ;
  - datblygu Hybiau Ansawdd (CGF, GGC a'r Ymddiriedolaeth);
  - sefydlu tîm Ansawdd a Diogelwch sy'n addas i gyflwyno deddfwriaeth newydd;
  - gweithredu gofynion Dyletswydd Ansawdd a Gonestrwydd;
  - cynllunio ar gyfer Safonau Ansawdd newydd a'u gweithredu;
  - sicrhau bod metrigau cyflawni gwasanaethau o ansawdd Bwrdd clir;
  - gweithredu system Rheoli Ansawdd yr Ymddiriedolaeth ;
  - sicrhau systemau cadarn ar gyfer cofnodi profiadau defnyddwyr gwasanaethau, gyda dulliau dysgu a gwella;
  - sicrhau arweinyddiaeth glinigol gadarn, a sefydlu Bwrdd Clinigol a Strategaeth; ac
  - optimeiddio gweithio ar frig trwydded ac optimeiddio gweithio uwch ymarfer.
- 26 Ein dealltwriaeth ni yw y bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn monitro'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau hyn fel rhan o'i adolygiad chwarterol o fonitro'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y CTCI.
- 27 Ar y cyd â'r Fframwaith AaD newydd, datblygodd yr Ymddiriedolaeth ddeg Nod Gwella Ansawdd newydd ar gyfer 2022-23. Mae'r rhain yn ychwanegol at yr 11 blaenoriaeth a nodir yn CTCI 2022-25 (gweler **paragraff 25**). Canolbwynt y deg Nod Gwella Ansawdd newydd yw ailgynllunio gwasanaethau i ddiwallu'r galw cynyddol a ragwelir ac i sicrhau gwelliannau ychwanegol i wasanaethau. Wrth symud ymlaen, dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y Nodau Gwella Ansawdd yn nodau SMART. Dylent nodi pa gamau penodol fydd yn cael eu cymryd, erbyn pryd, a beth yw'r canlyniad a fwriedir, a thrwy hynny ei gwneud hi'n bosibl asesu a ydynt wedi'u cyflawni'n llawn. Dylai'r Ymddiriedolaeth hefyd fyfyrion ynghylch cynnwys mwy o fesurau canlyniadau/mesurau profiad a adroddir gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn ogystal â dangosyddion ansawdd pur (**Argymhelliad 1**).
- 28 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym ei bod yn bwriadu ymgynghori â staff i ddatblygu Nodau Gwella Ansawdd erbyn 31 Ionawr bob blwyddyn ar gyfer eu cynnwys yn yr CTCI. Bydd gan bob Nod Gwella Ansawdd gynllun canlyniad a chyflenwi wedi'i ddiffinio a bydd yn cael ei reoli gan arweinydd gweithredol dynodedig a chyfarwyddwr gweithredol yn noddwr. Bydd y gwaith o gyflawni yn cael ei fonitro drwy dimau ansawdd perthnasol, a thrwy eithriad drwedd i'r Bwrdd

Rheoli Gweithredol ac yn chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

## Rheoli risg

- 29 Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i wella trefniadau rheoli risg. Fodd bynnag, mae angen i'r Bwrdd a'i bwyllgorau sicrhau eu bod yn craffu ar y cynnydd i fynd i'r afael â bylchau mewn rheolaethau a sicrwydd o risgiau strategol. Mae cyfleoedd i wella'r gwaith craffu ar risg sy'n ymddangos mewn cofrestrau risgiau yn weithredol a gan bwyllgorau'r Bwrdd.
- 30 Yn 2020, lluniodd yr Ymddiriedolaeth Fframwaith Sicrwydd Bwrdd sy'n nodi deg prif risg i gyflawni blaenoriaethau strategol. Yn ystod 2021 a 2022, aeth y gwaith ymlaen i boblogi pob prif risg â rheolaethau allweddol a ffynonellau sicrwydd a nodi unrhyw fylchau. Pennir pob risg ar gyfer arweinydd gweithredol cyfrifol, a phwyllgor Bwrdd priodol at ddibenion monitro.
- 31 Wrth i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ddatblygu ac aeddfedu, cafodd ei ystyried gan y Bwrdd, y Pwyllgor Datblygu Strategol a'r Pwyllgor Archwilio i sicrhau bod y cyfeiriad teithio yn gywir, yn fwy felly nag ystyried y rheolaethau a'r sicrwydd sydd ar waith neu eto i'w datblygu. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r lefel nesaf o aeddfedrwydd, bydd angen i bwyllgorau'r Bwrdd ddechrau adolygu eu risgiau strategol penodedig yn fwy trefnus, cael a monitro cynnydd o'i gymharu â chynlluniau gweithredu cysylltiedig a sicrhau bod cylchoedd busnes pwyllgorau'r Bwrdd yn rhoi ystyriaeth briodol i bob un o'r rheolaethau a ffynonellau sicrwydd.
- 32 Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys risg strategol sy'n benodol i ansawdd a diogelwch<sup>3</sup>. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad wedi cael y Fframwaith Sicrwydd Bwrdd nac unrhyw bapur yn ymdrin yn benodol â risg strategol ansawdd a diogelwch. Fel y nodir ym **mharagraff 31**, rydym yn disgwyl gweld cylch busnes y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn cael ei ddiweddarau i gynnwys Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ar gyfer adolygu'n rheolaidd a sicrhau ystyriaeth reolaidd o'r ffynonellau sicrwydd (**Argymhellion 2a a 2b**).

<sup>3</sup> Y risg strategol yw 'ar hyn o bryd nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddulliau, systemau, prosesau a setiau data Ansawdd a Diogelwch cydlynus ac wedi'u hintegreiddio'n llawn gan gynnwys y gallu i ddysgu'n dorfol o adborth cleifion (adborth/canlyniadau/cwynion/hawliadau, digwyddiadau cleifion/rhoddwyr) a'r gallu i gael mewnwelediad o setiau data trionglog cadarn ac i ddangos yn systematig yr hyn a ddysgwyd, gwelliant a bod camau ataliol wedi'u cymryd i atal niwed i roddwyr/cleifion yn y dyfodol. Gallai hyn arwain at yr Ymddiriedolaeth yn methu bodloni ei chyfrifoldebau cenedlaethol a deddfwriaethol (Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru), 2020) a lleihau ffydd y cyhoedd/cleifion/rhoddwyr, asiantaethau allanol, rheoleiddiwr a'r comisiynydd yn ansawdd y gofal y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei ddarparu.'

- 33 Mae gan yr Ymddiriedolaeth dîm rheoli risg corfforaethol penodedig cyfyngedig. Cyn hynny, roedd yn cynnwys 0.2 WTE yn gweithio i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn treialu swydd newydd, Swyddog Risg a Chydymffurfiaeth a Sicrwydd i gynyddu capasiti yn y tîm. Mae gan CGF a GGC arweinwyr rheoli risg, ac mae arweinydd rheoli risg ar gyfer tîm y rhaglen<sup>4</sup> Trawsnewid Gwasanaethau Canser. Nid yw'r arweinwyr rheoli risg yn CGF a GGC yn adnoddau rheoli risg penodedig, ac mae gan y ddau bortffolios ehangach o waith.
- 34 Ym mis Medi 2020, cymeradwyodd y Bwrdd fframwaith rheoli risg newydd yr Ymddiriedolaeth, y datganiad parodrwydd i dderbyn risg a gweithdrefnau rheoli risg cysylltiedig a chanllawiau defnyddwyr. Yn ein Hasesiad Strwythuredig yn 2021, fe wnaethom adrodd bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu trefniadau rheoli risg newydd.
- 35 Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth adolygiad sylweddol o'r holl risgiau agored ar gofrestrau risg gweithredol yn ystod 2021. Roedd angen yr adolygiad er mwyn sicrhau bod gwybodaeth risg yn gyfredol ac yn gyflawn cyn mudo pob risg i fersiwn newydd o Datix<sup>5</sup> ac i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n gyson â'r gofynion newydd yn y fframwaith rheoli risg newydd. Cymerodd yr adolygiad o risgiau agored yn hirach na'r disgwyl ac ar adeg ein gwaith maes roedd rhywfaint o waith i'w gwblhau o hyd, gan gynnwys:
- mudo risgiau GGC i'r fersiwn newydd o Datix;
  - Diweddarau gweithdrefnau o fewn y Fframwaith Rheoli Risg o ganlyniad i fireinio ar ôl ei weithredu;
  - darparu hyfforddiant i staff gweithredol a chorfforaethol; a
  - sicrhau cysondeb ac eglurder yn y ffordd y cofnodir rheolaethau presennol a rheolaethau ychwanegol arfaethedig.
- 36 Ers ein gwaith maes, mae darparu hyfforddiant rheoli risg wedi'i gwblhau i raddau helaeth ac mae pob un o'r meysydd eraill o waith yn weddill wedi'u gorffen.
- 37 Mae'r arweinwyr risg yr isadrannau yn cyfarfod yn wythnosol gyda'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol i reoli unrhyw faterion rheoli risg a sicrhau bod sgorio risgiau yn briodol ac yn gyson ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- 38 Gwnaethom arsylwi ar waith craffu ar gofrestrau risg isadrannau mewn nifer o gyfarfodydd Grŵp Ansawdd a Diogelwch CGF a Grŵp Sicrwydd a Llywodraethiant Rheoleiddiol GGC rhwng Mehefin 2021 a mis Chwefror 2022. Er y bu gwaith craffu

<sup>4</sup> Mae Trawsnewid Gwasanaethau Canser yn rhaglen waith i gynyddu ar yr un raddfa â'r galw cynyddol a chymhlethdod gofal canser ac i ddarparu mwy o ofal yn agosach at y cartref. Mae'r rhaglen yn cynnwys sawl prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladu canolfan ganser newydd, datblygu canolfan radiotherapi lloeren newydd, caffael offer clinigol a digidol, darparu mwy o wasanaethau allgymorth, a thrawsnewid gwasanaethau clinigol.

<sup>5</sup> Mae Datix yn system sy'n defnyddio'r we i adrodd am ddigwyddiadau a rheoli risg ac fe'i defnyddir gan sefydliadau gofal iechyd.

gweddol dda ar y risgiau mewn cofrestrau (yn enwedig yng nghyfarfodydd GGC), rhwystrowyd y gallu i graffu gan y modd y cyflwynwyd gwybodaeth risg. Cynhaliwyd ein harsylwadau yn ystod y cyfnod pan oedd y cofrestrau risgiau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau, arweiniodd hyn at hepgoriadau yn y data a ddarparwyd. Er enghraifft, yng nghyfarfodydd Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch CGF ym mis Chwefror 2022, dim ond y sgôr risg presennol a ddarparwyd (ond nid y sgoriau cychwynnol na tharged) ac roedd yr wybodaeth am reoli lliniaru yn aneglur (ac mewn rhai achosion wedi'i hepgor) a oedd yn golygu ei bod yn amhosibl penderfynu a oedd unrhyw gynnydd o ran lleihau sgoriau risg, neu pa gamau ychwanegol oedd eu hangen. Dylai'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod adroddiadau risg a ddarperir ar gyfer monitro a chraffu ar bob lefel yn cynnwys y manylion angenrheidiol i alluogi gwaith craffu a herio da. Dylai fod cytundeb ynghylch lefel y manylion a ddarperir ar risgiau, ond dylai hyn gynnwys sgoriau risg cychwynnol, presennol a tharged, gan sicrhau digon o eglurder ar y rheolaethau presennol a chymau lliniaru (**Argymhelliad 3a**).

- 39 Mae'r priod dimau uwch-reoli isadrannau yn adolygu ac yn craffu ar risgiau'r isadrannau. Mae Bwrdd Rheoli Gweithredol yr Ymddiriedolaeth yn adolygu cofrestrau risgiau yn ei gyfarfodydd misol. Ychwanegir unrhyw risgiau sydd â sgôr risg o 12 neu fwy at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Adroddir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol i bwyllgorau'r Bwrdd (y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad a'r Pwyllgor Datblygu Strategol). Mae risgiau â sgôr o 16 a throdd yn destun gwaith craffu gan y Bwrdd.
- 40 Canfu ein harsylwadau o'r Pwyllgor Ansawdd, Perfformiad a Diogelwch, pan gyflwynir y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, ymddengys nad oes llawer o drafod na chraffu ar y risgiau yn y gofrestr a ddostrannwyd i'r Pwyllgor. Rydym yn credu bod nifer o resymau dros hyn:
- ar hyn o bryd, nid yw'r naratif ar reolaethau yn glir yn y cofrestrau risgiau. Mae'n anodd gwahaniaethu rhwng rheolaethau sydd eisoes ar waith, a'r rhai y bwriedir eu rhoi ar waith ac erbyn pryd. Felly, mae'n amhosibl gweld a oes unrhyw gamau lliniaru arfaethedig wedi'u gweithredu mewn pryd, ac a yw wedi cael yr effaith a fwriadwyd (megis gostyngiad yn y sgôr risg) (**Argymhelliad 3a**).
  - ar gyfer llawer o risgiau, mae yna eitemau ar wahân ar yr agenda a oedd yn rhoi gwybodaeth fanwl, ac felly roedd y drafodaeth eisoes wedi digwydd. Wrth drafod y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, byddai'n fuddiol i'r Ymddiriedolaeth dynnu sylw at unrhyw risgiau sydd wedi'u trafod yn flaenorol o fewn eitem agenda wahanol (**Argymhelliad 3b**).
  - Mae trafodaethau wedi canolbwyntio ar y cynnydd o ran diweddarau a'r cofrestrau risgiau, yn hytrach nag ar y risgiau eu hunain. Er bod y perchnogion risg gweithredol yn bresennol, nid ydynt yn arwain trafodaeth ar risgiau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb (**Argymhelliad 3c**).
- 41 Wrth symud ymlaen, mae angen i drafodaethau mewn cyfarfodydd Bwrdd a phwyllgorau graffu ar briodoldeb y rheolaethau presennol, gan sicrhau bod camau

arfaethedig i gynyddu a gwella rheolaethau yn amserol ac yn cael yr effaith a ddymunir.

## Diwylliant sefydliadol

- 42 Dylai sefydliadau'r GIG ganolbwyntio'n barhaus ar wella ansawdd gofal a defnyddio adnoddau y mae pendraw iddynt i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae'r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy'n canolbwyntio ar gleifion, gan gynnwys gwella cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol, cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd sy'n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, gwrandao a gweithredu ar sylwadau gan staff a chleifion, a dysgu gwersi.
- 43 Canfuom fod **gan yr Ymddiriedolaeth ddiwylliant agored ac un o ddysgu ac mae wedi ymrwmo i ddysgu oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae trefniadau da i gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau a staff ac i'w rannu. Ond mae rhai aelodau staff yn tybio efallai na fyddai'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn ymateb i bryderon nac i gymryd camau i fynd i'r afael â bwlio neu aflonyddu.**

## Gwella ansawdd

- 44 Canfuom fod **adrodd ar archwiliad clinigol wedi gwella, er bod cyfleoedd ar ôl i ddangos sut y mae dysgu o archwiliad clinigol wedi ymwreiddio. Gwnaed cynnydd da i weithredu gofynion y Gwasanaeth Archwilio Meddygol.**

## Cylch ansawdd

- 45 Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu datblygu system rheoli ansawdd (sicrwydd) ar draws y sefydliad. Y bwriad yw y bydd y system yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac yn ymgorffori rheoli risg, systemau sicrwydd mewnol ac allanol, systemau ar gyfer monitro rheoleiddio a deddfwriaethol, ac ansawdd, diogelwch, canlyniad a throsolwg profiad.

## Archwilio Clinigol

- 46 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o ddarparu sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch y gwasanaethau. Bob blwyddyn, mae CGF yn cymryd rhan mewn archwiliadau clinigol perthnasol yn y rhaglen genedlaethol o archwiliadau ac adolygiadau clinigol; tra bod GGC yn destun archwiliadau allanol arferol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn cytuno ar raglen o archwiliadau clinigol lleol yn y ddwy isadran i roi sicrwydd am ansawdd a diogelwch gwasanaethau a chydymffurfiaeth â'r safonau gofal disgwylidig.

- 47 Dywedodd yr Ymddiriedolaeth wrthym nad oes ganddynt adnoddau canolog corfforaethol ar gyfer Archwilio Clinigol. Fodd bynnag, mae'r Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yn gyfrifol am archwilio clinigol a sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gwneud darpariaeth ddigonol i gefnogi clinigwyr a rheolwyr sy'n cynnal archwiliadau clinigol. Mae gan is-adrannau CGF a GGC arweinwyr clinigol dynodedig ar gyfer archwilio clinigol.
- 48 Yn CGF, mae cynlluniau archwilio clinigol lleol yn cael eu penderfynu a'u blaenoriaethu gan dimau'r safle canser. Mae cynlluniau archwilio clinigol lleol yn gysylltiedig â safonau cenedlaethol a osodwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal, canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad o ddigwyddiadau a chwynion sylweddol ac i asesu cyflwyno technolegau newydd. Mae gan CGF dîm archwilio clinigol penodedig dan arweiniad y Rheolwr Archwilio Clinigol.
- 49 Mae CGF a GGC yn adrodd am gynnydd o'i gymharu â'r archwiliadau clinigol ac archwiliadau eraill o fewn eu hadroddiadau is-adrannol chwarterol priodol, y mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn eu cael.
- 50 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth ei Gynllun Archwilio Clinigol cyntaf ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan yn 2020 (roedd cynlluniau blaenorol yn cynnwys CGF yn unig). Cymeradwyodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Gynllun Archwilio Clinigol 2022-23 ym mis Gorffennaf 2022. Dylai datblygiad y Fframwaith AaD gryfhau aliniad rhwng archwilio clinigol a'r agenda ansawdd a diogelwch ar draws yr Ymddiriedolaeth a sicrhau bod aliniad rhwng cydlynu, goruchwyllo, a thriogli canlyniadau.
- 51 Cafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Adroddiad Archwilio Clinigol cyntaf ar gyfer yr Ymddiriedolaeth gyfan yn 2020-21<sup>6</sup> ym mis Gorffennaf 2021. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae ein hadolygiadau Asesu Strwythuredig wedi canfod nad yw adroddiadau archwilio clinigol yr Ymddiriedolaeth wedi nodi'n ddigonol ac yn glir gamau allweddol ar gyfer gwella, gan ei gwneud hi'n anodd tracio cynnydd o'i gymharu â gweithredu camau gweithredu a nodwyd. Ein barn ni yw, er bod Adroddiad Archwilio Clinigol 2020-21 yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella, nid yw'r adroddiad yn nodi pa gamau fydd yn cael eu cymryd, na phryd. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod angen adrodd mwy cadarn am ganfyddiadau, dysgu a chymau gweithredu sy'n deillio o'r rhain er mwyn gallu dangos sut mae'r hyn a ddysgwyd wedi cael ei rannu a'i weithredu.<sup>7</sup>

## Adolygiadau o farwolaethau ac afiachedd

<sup>6</sup> Yn y blynyddoedd blaenorol roedd yr Adroddiad Archwilio Clinigol yn cynnwys archwiliadau CGF yn unig.

<sup>7</sup> Ni chafodd yr Adroddiad Archwilio Clinigol 2021-22 ei gyflwyno mewn Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad erbyn y cyfnod adrodd.

- 52 Mae cyfarfodydd adolygu marwolaethau ac afiachedd yn darparu dull systematig ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid o ddigwyddiadau niweidiol, cymhlethdodau, neu farwolaethau, i fyfyrion, dysgu, a gwella gofal ar gyfer cleifion. Cafodd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol ei gyflwyno ledled Cymru, a daeth yn ddull adolygu annibynnol statudol ar gyfer marwolaethau cleifion o fis Ebrill 2022.
- 53 Roedd gan CGF broses benodol eisoes i adolygu marwolaethau ac afiachedd. Mae holl farwolaethau cleifion mewnol yn cael eu hadolygu gan nyrs ymgynghorol gyda mewnbwn yn cael ei ddarparu gan feddygon ymgynghorol a thîm y ward a oedd yn rhoi triniaeth. Cafodd unrhyw faterion a godwyd eu huwchgyfeirio at Fforwm Digwyddiadau Clinigol Sylweddol CGF sydd ag aelodaeth amlddisgyblaethol i gynnal adolygiadau a lledaenu dysgu ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- 54 Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno gofynion newydd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol, dynododd CGF arweinydd ymgynghorol ar gyfer y Fforwm Digwyddiadau Clinigol Sylweddol ac adolygiadau Marwolaethau. Ym mis Hydref 2021, dechreuodd CGF gynllun treialu i sicrhau y cydymffurfiwyd â'r gofynion ar gyfer adrodd am farwolaethau cleifion i'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol. Sefydlodd CGF Grŵp Prosiect Marwolaethau i arwain y gwaith hwn. Darparwyd hyfforddiant i'r staff priodol. Ers y cynllun treialu, mae'r Grŵp Prosiect Marwolaethau wedi bod yn datblygu gweithdrefn weithredu safonol ar gyfer y broses.
- 55 Adroddodd CGF wrth Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mawrth 2022 ei fod yn bodloni gofynion y Gwasanaeth Archwilio Meddygol. Bydd CGF yn cyflwyno Adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Meddygol a Fframwaith Marwolaethau i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ddwywaith y flwyddyn.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

- 56 Canfuom fod gan yr **Ymddiriedolaeth Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad sefydledig sy'n annog diwylliant agored a dysgu. Mae cydymffurfio â hyfforddiant statudol a gorfodol yn dda ond mae'r pandemig wedi effeithio arno.**
- 57 Lansiyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Ymddiriedolaeth yn 2018 ac mae'n cefnogi diwylliant sy'n canolbwyntio ar ansawdd a defnyddwyr gwasanaethau gyda phwyslais ar welliant parhaus, tryloywder, bod yn agored a dysgu pan fydd pethau'n mynd o chwith. Pan gafodd ei lansio, cymerodd yr Ymddiriedolaeth gamau i roi cyhoeddusrwydd i'r gwerthoedd a'r ymddygiadau. Ni fu mentrau diweddar yn ddiweddar. Serch hynny, dywedwyd wrthym fod Aelodau Annibynnol yr Ymddiriedolaeth wedi gofyn am ddiweddariad ar gyfer staff ac mae cynlluniau ar waith i ddiweddarau ymwybyddiaeth sefydliadol o'r Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau er mwyn sicrhau bod gwerthoedd yn cael y sylw mwyaf blaenllaw ym mhopath y mae staff yn ei wneud. Mae Gwerthoedd ac Ymddygiadau'r Ymddiriedolaeth yn rhan annatod o Adolygiadau Arfarnu a



Datblygu Personol (PADRs), ac yn rhan o asesiadau cyfweiliadau a hyfforddiant cynefino.

- 58 Dangosodd ein gwaith ddarlun cadarnhaol mewn cysylltiad â'r diwylliant o adrodd am wallau, damweiniau a fu bron â digwydd, digwyddiadau a chodi pryderon. O'r staff a gwblhaodd ein harolwg<sup>8</sup>, roedd 53 allan o 61 aelod o staff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr Ymddiriedolaeth yn annog staff i adrodd am wallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau. Roedd dwy ran o dair o'r staff (39 allan o 61 aelod o staff) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod staff sydd â chysylltiad â gwall, damwain a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad. Roedd y rhan fwyaf o staff (48 allan o 61 aelod o staff) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y sefydliad yn gweithredu i sicrhau na fydd gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn digwydd eto.
- 59 Yn Arolwg Staff GIG Cymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020, nododd cyfran o staff yr Ymddiriedolaeth eu bod wedi profi bwlio, aflonyddu, neu gamdriniaeth gan gydweithiwr arall, aelod o'r cyhoedd neu reolwr llinell dros y flwyddyn flaenorol (15%, 8%, 6% yn y drefn honno). Yn siomedig, roedd llai na hanner (42%) yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y sefydliad yn cymryd camau effeithiol (**Argymhelliad 4a**). Adolygodd yr Ymddiriedolaeth ganlyniadau a negeseuon allweddol Canfyddiadau Arolwg Staff y GIG yng nghyfarfod eu Bwrdd ym mis Chwefror 2021. Cytunwyd y byddai'r canlyniadau'n cael eu trafod o fewn timau ac y byddai cynllun gweithredu ar draws yr Ymddiriedolaeth yn cael ei ddatblygu. Arweiniodd pwysau yn sgil y pandemig at oedi, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd yr Ymddiriedolaeth yn paratoi i aildechrau'r gwaith.
- 60 Mae cynnal PADRs yn flynyddol yn bwysig ar gyfer nodi anghenion hyfforddi. Targed Llywodraeth Cymru o ran cydymffurfio â PADR yw 85%, adroddwyd bod GGC ychydig yn is na'r targed hwn gyda 78.4% a CGF yn is gyda 66.0% (Mawrth 2022)<sup>9</sup>. Effeithiodd y pandemig ar y gofyniad i gydymffurfio â chynnal PADRs, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, ar gamau gweithredu i wella cydymffurfiaeth gan gynnwys targedu meysydd problemus.
- 61 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant staff a chleifion. Mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth adrodd ar gydymffurfiaeth i Lywodraeth Cymru bob mis, a'r targed ar gyfer cydymffurfio yw 85%. Mae ffigurau a adroddwyd yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mai 2022 yn dangos, ym mis Mawrth 2022, fod GGC wedi cyflawni 92.3% o ran cydymffurfio a CGF 84.8%. Mae'n anochel bod y pandemig wedi effeithio ar allu'r staff i fynd i sesiynau hyfforddi. Felly, nid yw'n syndod bod llai na hanner (26 allan o 61) o staff a ymatebodd i'n harolwg yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod

<sup>8</sup> Gwahoddwyd staff gweithredol sy'n gweithio ar draws CGF a GGC i gymryd rhan yn ein harolwg agwedd ar-lein ynghylch trefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Rhoddodd yr Ymddiriedolaeth gyhoeddusrwydd i'r arolwg ar ein rhan. Y gyfradd ymateb a amcangyfrifir yw 2.9%. Er nad yw'r canfyddiadau'n debygol o gynrychioli barn yr holl staff ar draws CGF a GGC, rydym ni wedi eu defnyddio i amlygu materion penodol.

<sup>9</sup> Fel yr adroddwyd ym Mhwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad Mai 2022.

ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol. Er bod perfformiad yn y ddwy isadran yn agos at y targed neu'n rhagori ar y targed, mae'r Tîm Addysg a Datblygu yn parhau i weithio'n agos gyda CGF i wella cydymffurfiaeth ac mae cynllun hyfforddi yn cael ei ddatblygu.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

- 62 Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth yn dangos ymrwymiad cryf i ddysgu oddi wrth brofiadau defnyddwyr gwasanaethau a staff. Mae trefniadau da i gasglu adborth defnyddwyr gwasanaethau, ac mae'r rhain wedi'u hehangu gan system electronig i gasglu adborth amser real a strategaeth newydd i ymgysylltu â chleifion ar gyfer gwasanaethau canser. Mae diwylliant o staff yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon, ond mae rhai staff yn poeni na fydd yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu mewn ymateb i bryderon.

### Profiad defnyddwyr gwasanaethau

- 63 Mae gan y ddwy is-adran arweinwyr dynodedig ar gyfer profiadau cleifion/rhoddwyr gydag amser gwarchoddedig i gyflawni'r swyddogaeth hon. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gydag amrywiaeth o gleifion, staff a rhanddeiliaid ehangach i ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Chleifion ar gyfer gwasanaethau canser, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2022. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â Chleifion yn cwmpasu ystod eang o ryngweithio â chleifion, gan gynnwys cynllunio ar gyfer y dyfodol, cynllunio gwasanaethau, darparu gwasanaethau a gofal unigol. Mae'n nodi cyfres o nodau ac egwyddorion sylfaenol ar gyfer CGF i sicrhau bod ymgysylltu â chleifion yn rhan annatod o'r ffordd y mae CGF yn gweithio.
- 64 Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â Chleifion yn nodi cynlluniau i greu Hyb Ymgysylltu â Chleifion yn CGF a fydd yn ganolbwynt er mwyn i gleifion, staff a rhanddeiliaid allu cysylltu â CGF ac i gydlynu gweithgareddau ymgysylltu.
- 65 Ar hyn o bryd mae gan CGF dulliau amrywiol ar gyfer casglu adborth cleifion, gan gynnwys Holiadur Cleifion Cymru Gyfan, y cyfryngau cymdeithasol, y Grŵp Arweinyddiaeth Cleifion ac arolygon penodol a ddatblygwyd ar gyfer Archwiliadau Clinigol. Er i rai gweithgareddau profiadau cleifion ddod i ben yn ystod anterth y pandemig, fe wnaethon nhw ailddechrau yn 2021. Arweiniodd y pandemig at fwy o bwyslais ar gipio adborth cleifion yn ddigidol, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol. Mae CGF yn defnyddio llwyfan digidol Civica, i gasglu profiadau cleifion, sy'n ei gwneud yn bosibl i gasglu data amser real er mwyn gallu adnabod materion ar unwaith ac ymateb yn gyflymach.
- 66 Mae gan CGF Grŵp Cyswllt Cleifion sydd wedi hen ennill ei blwyf. Mae 'arweinwyr' dynodedig cleifion o'r grŵp hwn yn weithgar yn helpu staff i ddeall pethau o safbwynt claf neu ofalwr. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi mabwysiadu dull 'Dywedoch chi, Gwnaethom ni' i ddangos yr hyn a ddysgwyd ac i ymateb i adborth cleifion.
- 67 Trafodir dysgu o brofiad cleifion yng Ngrŵp Rheoli Ansawdd a Diogelwch CGF a Phanel Gweithio i Wella yr Ymddiriedolaeth.

- 68 Mae GGC yn gwahodd pob rhoddwr i roi adborth ar bapur, ar-lein neu drwy arolygon SMS. Mae cardiau canmoliaeth a phryderon ar gael ym mhob clinig rhoi gwaed ac mae sianeli cyfryngau cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i roi adborth. Caiff adborth ei adolygu bob mis a thrafodir dysgu allweddol yng nghyfarfod Grŵp Sicrwydd a Llywodraethiant GGC. Mae GGC hefyd yn defnyddio Civica i gipio profiad rhoddwyr.
- 69 Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn cael amrywiaeth o brofiadau defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys crynodebau o ganlyniadau arolwg pob is-adran. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn llunio adroddiad blynyddol ar brofiad cleifion a rhoddwyr. Mae adborth defnyddwyr gwasanaethau yn parhau i fod yn gadarnhaol iawn.
- 70 Er gwaethaf yr amrywiaeth o ddulliau casglu data, dim ond hanner (29 allan o 61) o staff yr Ymddiriedolaeth a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer eu hardal waith nhw,
- 71 Mae'r Ymddiriedolaeth yn llunio adroddiad Gweithio i Wella blynyddol, ac yn cyflwyno diweddariadau chwarterol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Cyflwynwyd y diweddariad diweddaraf, Chwarter 4 2021-22, i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mai 2022. Cafodd y rhan fwyaf o bryderon eu hystyried yn rhai lefel isel, ac yn yr un modd cafodd bron pob digwyddiad ei ystyried yn un o ddim niwed/niwed isel. Ar draws yr Ymddiriedolaeth, roedd prif themâu pryderon yn gysylltiedig â chyfathrebu, agweddau, ac ymddygiadau. Roedd y pryderon a ystyriwyd yn rhai mwy difrifol yn ymwneud â chyfathrebu ynghylch gofal clinigol, fel cam-gyfathrebu canfyddedig ynghylch cynlluniau triniaeth. Roedd cwynion a ystyriwyd yn rhai llai difrifol yn ymwneud ag agwedd ynghylch trefnu apwyntiadau. Mae'r adroddiadau'n cynnwys crynodeb o'r hyn a ddysgwyd a gipiwyd o adolygiadau o bryderon a digwyddiadau, ac enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb.
- 72 Targed Llywodraeth Cymru o ran ymateb amserol i gwynion yw 75% o fewn y targed 30 diwrnod. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth ym Mhwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mai 2022 fod perfformiad yr Ymddiriedolaeth ar gyfer chwarter 4, 2021-22 yn cydymffurfio 100%, gan ragori ar darged Llywodraeth Cymru.

## **Straeon defnyddwyr gwasanaethau**

- 73 Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dechrau gyda stori claf neu stori rhoddwr, sy'n ddefnyddiol iawn yn gosod y cywair ar gyfer gweddill y cyfarfod. Mae straeon defnyddwyr gwasanaethau yn galluogi astudiaeth ddofn o ddigwyddiadau nad oeddent cystal â'r disgwyl a phrofiadau cadarnhaol. Mae straeon yn arwain at drafod a herio i sicrhau bod gwersi wedi eu nodi a'u rhannu. Cynhyrchir podlediadau ac anogir staff i ystyried y straeon.
- 74 Mae Sesiynau **Cerdded o Amgylch Diogelwch** Cleifion yn galluogi aelodau'r Bwrdd i ddeall profiadau staff, cleifion a rhoddwyr ac yn helpu i wneud data yn fwy

ystyron. Yn 2022, ailgychwynnodd yr Ymddiriedolaeth ei rhaglen her 15 cam ar ôl rhoi'r gorau iddi yn ystod anterth y pandemig. Mae'r ymweliadau her 15 cam yn helpu i roi sicrwydd i uwch staff ac aelodau annibynnol bod gwasanaethau'n groesawgar, yn ofalgar, wedi'u trefnu'n dda ac yn ddiogel. Maen nhw hefyd yn rhoi cyfle i staff godi pryderon a gofyn cwestiynau. Mae'r argymhellion a'r camau gweithredu sy'n deillio o'r ymweliadau yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Ansawdd, Perfformiad a Diogelwch dilynol i'w trafod ac yna ceir ymweliad dilynol sydd wedi'i drefnu i sicrhau yr ymdrinnir â'r argymhellion.

## Gwrando ar adborth a phryderon staff

- 75 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwmo i wrando ar y staff a dysgu o'u profiadau a'u phryderon. Mae cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn gwrando ar straeon staff.
- 76 Gall staff adrodd eu pryderon drwy'r llwyfan rhithwir WorkInConfidence. Mae staff y tîm Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol yn adolygu ac yn ymchwilio i'r sylwadau. Nododd Adroddiad y Gweithlu ar gyfer mis Chwefror 2022, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mai 2022, o ganlyniad i'r defnydd isel o'r Gwasanaeth WorkInConfidence, nid oeddent yn gallu darparu gwybodaeth heb iddo gael ei adnabod o bosibl.
- 77 Roedd y rhai a gyfwelwyd gennym yn ffyddiog y bydden nhw ac aelodau eraill o staff yn teimlo'n gyfforddus yn codi pryderon yn uniongyrchol trwy eu rheolwr neu reolwyr uwch. Fodd bynnag, canfu ein harolwg mai dim ond hanner (30 allan o 61) o aelodau staff oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan staff. Nodwyd thema debyg yn Arolwg Staff y GIG 2020. Dylai'r Ymddiriedolaeth nodi yn ei chynllun gweithredu Arolwg Staff y GIG sut y mae'n bwriadu archwilio'r rhesymau pam nad yw rhai aelodau staff yn teimlo o bosibl fod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n ddigonol ar bryderon (**Argymhelliad 4b**).
- 78 Mae staff CGF yn cael cyfarfodydd trosglwyddo dyddiol lle mae staff yn cael eu hannog i godi unrhyw bryderon a defnyddio'r cyfle i rannu'r hyn a ddysgwyd. Mae timau casglu rhoddwyr GGC yn cynnal ôl-drafodaeth ddyddiol ar ôl pob sesiwn rhoi gwaed lle gallant godi unrhyw bryderon. Mae clinigwyr gweithredol ac uwch glinigwyr yn yr Ymddiriedolaeth a'r ddwy is-adran yn weledol weithredol, sy'n eu helpu nhw i ddeall profiad y staff a bod yn fwy o fewn cyrraedd staff.
- 79 Roedd ychydig llai na hanner (27 allan o 61) o staff yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod cyfathrebu rhwng uwch reolwyr a staff yn effeithiol. Mae'n bosibl bod hyn o ganlyniad i'r ffaith y bu cyfleoedd i gwrdd yn fwy cyfyngedig yn ystod y pandemig. Rydym yn nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi cynyddu cyfleoedd i gyfathrebu â staff drwy gyfryngau cymdeithasol, cynadledda digidol a fideo-gynadledda. Fodd bynnag, dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried sut y gall ailysgogi ymgysylltu â staff.
- 80 Er nad yw'n farn gyffredinol, nododd ein gwaith maes fod rhai staff is-adrannau yn teimlo eu bod yn bell o dîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth, ac o ganlyniad yn bell o'r broses o wneud penderfyniadau strategol. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth

wrthym am gynlluniau i ailsefydlu'r Grŵp Cynghori Clinigol yn barhaol (yn haf 2022) a datblygu Bwrdd Strategaeth Glinigol a Gwyddonol. Bydd y fforymau hyn yn rhoi cyfle i glinigwyr o'r ddwy is-adran lywio'r broses o wneud penderfyniadau.

## Strwythurau a phrosesau llywodraethu

- 81 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar lefel y bwrdd ac islaw lefel y bwrdd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.
- 82 Canfuom fod **y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd a'r gwaith arfaethedig i weithredu'r Hybiau Ansawdd wedi gosod strwythurau llywodraethu gweithredol a llifoedd sicrwydd i gefnogi llywodraethu ansawdd.**

## Adnoddau ac arbenigedd ar gyfer llywodraethu ansawdd

- 83 Canfuom fod **adnoddau dynodedig priodol ar gyfer llywodraethu ansawdd, ac mae gan yr Ymddiriedolaeth, wrth weithredu ei Hybiau Ansawdd newydd, gynlluniau i fynd i'r afael â bylchau mewn adnoddau.**

## Adnoddau llywodraethu ansawdd CGF

- 84 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Canser Felindre sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros ansawdd a diogelwch yn CGF. Er bod gan uwch dîm rheoli CGF gydgyfrifoldeb dros ansawdd a diogelwch, y Pennaeth Ansawdd Nyrsio, Profiad Cleifion a Gwasanaethau Integredig CGF yw'r arweinydd dynodedig. Mae Cyfarwyddwr Clinigol CGF yn gyfrifol am roi arweinyddiaeth ar gyfer cyfarwyddiaeth feddygol CGF. Mae yna arweinwyr priodol ar gyfer gwasanaethau fel adolygiadau marwolaethau, ansawdd a diogelwch, ansawdd a diogelwch radioleg, cwynion, a phrofiad cleifion.
- 85 Dywedodd CGF wrthym eu bod yn cael cefnogaeth gan y tîm ansawdd a diogelwch corfforaethol a'r tîm llywodraethu corfforaethol yn ôl y galw.
- 86 Ar adeg ein gwaith maes, dywedodd CGF wrthym eu bod yn teimlo bod angen adnoddau o ansawdd a diogelwch ychwanegol arnynt i weithredu gofynion newydd yn llawn sy'n deillio o'r Fframwaith AaD newydd, gofynion y Gwasanaeth Archwilio Meddygol ac i weithredu'r Ddyletswydd Gonestrwydd, ac i wella'r broses adrodd rhwng CGF a'r Ymddiriedolaeth.
- 87 Fel y nodir yn y Fframwaith AaD, bwriad yr Ymddiriedolaeth yw creu Hyb Ansawdd CGF, dan arweiniad arweinydd is-adrannol enwebedig. Y bwriad yw i Ganolfan Ansawdd CGF gefnogi Uwch Dîm Rheoli CGF wrth weithredu cyfrifoldebau ansawdd, diogelwch, rheoleiddio a sicrwydd drwy sicrhau goruchwyliaeth effeithiol, cydlynu, dysgu, sicrwydd a thriangli a gweithredu effeithiol gan y Grŵp Ansawdd a Diogelwch Is-adrannol. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu a gweithredu Hyb

Ansawdd CGF yn ystod gweddill 2022, gan gynnwys nodi a llenwi anghenion adnoddau.

## Adnoddau llywodraethu ansawdd GGC

- 88 Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru sydd â'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau ansawdd a diogelwch yn yr adran. Er bod gan yr uwch dîm rheoli gydgyfrifoldeb dros sicrwydd ansawdd a diogelwch, y Pennaeth Sicrhau Ansawdd a Chydymffurfiaeth Reoleiddio sy'n arwain datblygu strategol, cyflawni a rheoli'r systemau ansawdd trwy'r adran yn gyfan gwbl. Mae Pennaeth Nyrsio GGC yn gyfrifol am lywodraethu clinigol, rheoli pryderon ac ymgysylltu â rhoddwyr. Mae arweinwyr dynodedig ar gyfer atal a rheoli heintiau, archwilio clinigol, gwella ansawdd, rheoli risg, Datix, iechyd a diogelwch a dadansoddeg data. Nid oes gan rai arweinwyr amser gwarchoddedig i gyflawni eu swyddogaethau, gan gynnwys yr arweinwyr archwilio clinigol ac atal a rheoli heintiau.
- 89 Ar adeg ein gwaith maes, dywedodd GGC fod adnoddau i gefnogi sicrwydd a diogelwch ansawdd yn annigonol gyda nifer o swyddi gwag. Dywedodd staff wrthym fod adolygiad arfaethedig (hwyr) o ofnion staff ansawdd GGC, a oedd yn angenrheidiol, oherwydd bod anghenion staffio wedi newid dros amser.
- 90 Mae'r Fframwaith AaD yn nodi y bydd Hyb Ansawdd GGC gyda'r un diben ag Hyb Ansawdd CGF (gweler **paragraff 87**). Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu a gweithredu Hyb Ansawdd GGC yn ystod gweddill 2022, gan gynnwys nodi a llenwi anghenion adnoddau

## Arweinyddiaeth yr Ymddiriedolaeth ar gyfer llywodraethu ansawdd

- 91 Mae yna gydgyfrifoldeb dros ansawdd a diogelwch ymhlith y Bwrdd Rheoli Gweithredol, uwch reolwyr ac arweinwyr o fewn yr is-adrannau i sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau. Fodd bynnag, y Cyfarwyddwr Nyrsio, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gwyddor Iechyd (Cyfarwyddwr Nyrsio) yw'r arweinydd gweithredol ar gyfer ansawdd a diogelwch ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- 92 Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol ar waith i ddarparu gwasanaethau o ansawdd a diogel a dyma'r arweinydd proffesiynol ar gyfer Gweithio i Wella, Atal a Rheoli Heintiau, dihalogi, diogelu, rheoli digwyddiadau a phrofiad defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn cadeirio Grŵp Atal a Rheoli Heintiau'r Ymddiriedolaeth a'r Grŵp Diogelu ac Oedolion Agored i Niwed a hefyd yn cyd-gadeirio'r Grŵp Strategaeth Glinigol gyda Chyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yr Ymddiriedolaeth.
- 93 Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn cael ei gefnogi gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad Cleifion/Rhoddwr, fodd bynnag, adeg ein gwaith maes, roedd nifer o swyddi gwag heb eu llenwi yn y tîm cefnogi ansawdd a diogelwch corfforaethol. Yn 2020, nododd yr Ymddiriedolaeth yr angen i gryfhau'r swyddogaeth ansawdd a diogelwch canolog. Cafodd adolygiad o'r adnoddau

ansawdd corfforaethol ei ohirio oherwydd y pandemig. Yn fwy diweddar, nodwyd strwythur mwy integredig i dynnu pob elfen o ansawdd a diogelwch at ei gilydd ni waeth beth fo'r portffolio gweithredol, gyda chyllid ychwanegol wedi'i nodi i greu swyddogaethau newydd yn yr Hyb Ansawdd Corfforaethol. Dechreuodd yr Ymddiriedolaeth broses i boblogi swyddi ar ôl i'n gwaith maes gael ei gwblhau.

- 94 Mae'r Fframwaith AaD yn nodi y bydd yr Hyb Ansawdd Corfforaethol yn hyb rhithwir o'r holl weithgaredd ansawdd a diogelwch sy'n cwmpasu'r rhychwant ar draws nifer o gyfrifoldebau gweithredol/cyfarwyddwr ac nid dim ond y rhai a reolir trwy'r Tîm Ansawdd Corfforaethol. Bwriedir i'r Hyb Ansawdd Corfforaethol ryngwynebu'n sylweddol â'r rhaglenni gwaith a chyrrff cenedlaethol, yn ogystal â chefnogi'r ddau hyb ansawdd is-adrannol yn broffesiynol. Bwriedir i'r tri Hyb Ansawdd fod yn atebol am gydlynw, goruchwylwio a thriogwli yn hytrach na darparu'r agenda ansawdd a diogelwch ar gyfer priod wasanaethau gan fod hyn yn gyfrifoldeb rheolwyr cyfrifol.
- 95 Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn gweithio'n agos gyda Chyfarwyddwr Meddygol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r Cyfarwyddwr Meddygol yn gyfrifol am ansawdd gofal meddygol, archwilio clinigol ac effeithiolrwydd ac adolygiadau marwolaethau. Cefnogir y Cyfarwyddwr Meddygol gan bum Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, pob un â swyddogaeth arweiniol ar draws yr Ymddiriedolaeth (gan gynnwys archwilio clinigol, addysg a hyfforddiant, ac ansawdd a diogelwch). Adeg ein gwaith maes, ychydig iawn o gapasiti cymorth oedd ar gael i'r Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwyr Meddygol Cynorthwyol. Fodd bynnag, ers ein gwaith maes, mae'r Ymddiriedolaeth wedi creu uwch-swyddogaeth gymorth i helpu i gefnogi'r swyddogaethau hyn ledled yr Ymddiriedolaeth.
- 96 Mae gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb dros lywodraethu, risg, sicrwydd, fframweithiau cyfreithiol a chydymffurfio a hefyd cyfathrebu ac ymgysylltu a Rhyddid Gwybodaeth.

## Strwythurau llywodraethu i gefnogi llywodraethu ansawdd

- 97 Canfuom fod yr Ymddiriedolaeth wrth ddatblygu Fframwaith Ansawdd a Diogelwch newydd a gweithredu mewn Hybiau Ansawdd wedi gosod strwythurau llywodraethu gweithredol a llifoedd sicrwydd i gefnogi llywodraethu ansawdd.

## Cyfarfodydd ansawdd a diogelwch CGF

- 98 Prif fforwm CGF ar gyfer trafod ansawdd a diogelwch yw Grŵp Rheoli Ansawdd a Diogelwch CGF (GRhAaD CGF). Mae'n cwrrdd bob mis, ac yn cael ei gadeirio gan Bennaeth Nyrsio, Ansawdd, Diogelwch a Gofal Integredig CGF. Mae'r cyfarfodydd yn cwmpasu amrywiaeth o wybodaeth a threfniadau ansawdd a diogelwch hanfodol. Mae'r cwmpas yn cynnwys polisiâu a chanllawiau newydd, y gofrestr risg is-adrannol, rheoli digwyddiadau a chydymffurfio â safonau gofal iechyd, profiad cleifion, atal a rheoli haint, archwilio clinigol, cyfryngau digidol, cleifion allanol,

radiotherapi a therapïau. Mae GRhAaD CGF yn adrodd wrth Uwch Dîm Rheoli CGF a chaiff yr adroddiadau hefyd eu cyflwyno mewn cyfarfodydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

- 99 Buom yn arsylwi ar GRhAaD CGF ar dri achlysur yn 2021 ac yn gynnar yn 2022. Gwelsom fod cyfarfodydd wedi'u strwythuro'n dda ac wedi'u cadeirio'n dda, ac roedd y cwmpas yn briodol. Gwnaethom sylwi ar sawl achlysur mai ychydig iawn o drafodaeth a chwestiynau a ysgogwyd gan yr eitemau ar yr agenda a gyflwynwyd. Dywedodd rhai a oedd yn bresennol wrthym fod rhai aelodau'n awgrymu bod dyblygu gwybodaeth sylweddol yn cael ei ystyried mewn fforymau eraill (**Argymhelliad 8a**). Hefyd, yn hanesyddol nid yw GRhAaD CGF wedi cael llawer os o gwbl o gynrychiolwyr meddygol, sydd wedi ei gwneud yn anodd cynnal trafodaethau amlddisgyblaethol (**Argymhelliad 8b**). Nodwyd hefyd y byddai rhai papurau wedi elwa ar gael papur clawr yn rhoi crynodeb o'r prif faterion sy'n cael eu cyflwyno.
- 100 Er ein bod yn rhagweld, pan fydd Hyb Ansawdd CGF wedi'i weithredu'n llawn, bydd gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â'n **hargymelliadau 8a a 8b**. Fodd bynnag, tan i hybiau ansawdd yr Ymddiriedolaeth fod yn gwbl weithredol, nid ydym yn gallu gwneud asesiad, ac felly mae ein hargymhellion yn parhau yn eu lle.
- 101 Wrth wneud ein gwaith maes roeddem yn ymwybodol o nifer o grwpiau yn CGF a oedd yn ymdrin â materion ansawdd a diogelwch, er enghraifft, y Pwyllgor Nwyon Meddygol, y Grŵp Rheoli Meddyginiaethau, y Grŵp Rhybuddion Diogelwch, y Grŵp Cyffuriau Rheoledig, y Grŵp Diogelu Ymbelydredd a Grŵp Atal a Rheoli Heintiau CGF. Nid oeddem yn gallu canfod i le yr adroddir gwybodaeth ansawdd a diogelwch a sicrwydd sy'n deillio o'r grwpiau hyn. Fodd bynnag, mae'r Fframwaith AaD newydd yn nodi'r pynciau y bydd GRhAaD CGF yn eu hystyried yn ei gyfarfodydd.

## Cyfarfodydd ansawdd a diogelwch GGC

- 102 Prif fforwm GGC ar gyfer trafod ansawdd a diogelwch yw Grŵp Sicrwydd Rheoleiddiol a Llywodraethiant GGC (GSRhLI GGC). Mae'r cyfarfodydd yn fisol ac yn cael eu cadeirio gan Bennaeth Sicrwydd Ansawdd a Chydymffurfiaeth Rheoleiddiol GGC. Mae'r cyfarfodydd yn ymdrin ag ystod o drefniadau rheoli ansawdd allweddol.
- 103 Mae'r agenda ar gyfer GSRhLI GGC yn cynnwys rhoi sylw da i faterion ansawdd a diogelwch drwy adroddiadau diweddarau misol. Mae cydbwysedd da rhwng edrych ar faterion perfformiad a thriogli adborth cleifion a rhoddwyr.
- 104 Mae strwythur fforymau sy'n cwmpasu materion ansawdd a diogelwch yn GGC yn syml. Mae dau brif grŵp sy'n adrodd i GSRhLI GGC, Grŵp Llywodraethiant Clinigol Rhoddwyr a Grŵp Llywodraethiant Clinigol Cleifion.
- 105 Canfu ein harsylwadau o'r GSRhLI GGC fod y cyfarfod wedi'i strwythuro'n dda, ac wedi'i gadeirio'n dda. Clywsom ddadleuon da a heriau adeiladol ar eitemau ar yr agenda. Mae GSRhLI GGC yn adrodd wrth Uwch Dîm Rheoli GGC, ac mae'r



adroddiadau hefyd yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad.

## Cyfarfodydd ansawdd a diogelwch ar draws yr ymddiriedolaeth

- 106 Mae nifer fach o gyfarfodydd ar draws yr Ymddiriedolaeth sy'n cwmpasu ansawdd a diogelwch, megis y Grŵp Atal a Rheoli Heintiau a'r Grwpiau Diogelu ac Oedolion Bregus. Roedd gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod y 12 mis cyn ein gwaith maes i gryfhau a gwella cynlluniau gwaith y grwpiau ar draws yr Ymddiriedolaeth.
- 107 Yn ystod ein gwaith maes, gwnaethom ofyn i'r Ymddiriedolaeth ddarparu diagram i ni sy'n amlinellu'r grwpiau/fforymau ar lefel Ymddiriedolaeth ac o fewn y ddwy adran sy'n ystyried unrhyw faterion ansawdd a diogelwch, a llifoedd sicrwydd cysylltiedig. Adeg ein gwaith maes, nid oedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu rhoi diagram cynhwysfawr i ni. Er bod mwy o eglurder yn y Fframwaith AaD newydd, rydym yn dal o'r farn y byddai'n fuddiol nodi pob cyfarfod sy'n ystyried materion ansawdd a diogelwch ar draws yr Ymddiriedolaeth yn hytrach na rhai ohonynt (**Argymhelliad 8c**).
- 108 Bydd y Hyb Ansawdd Corfforaethol newydd ac arweinwyr yr Hybiau Ansawdd Rhanbarthol yn cwrdd yn ffurfiol yn ddeufisol (o Hydref 2022) fel Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch newydd ei greu (Grŵp Llywodraethu AaD). Diben y Grŵp Llywodraethu AaD fydd sicrhau sicrwydd trionglog effeithiol a/neu eithriadau gan adrodd wrth y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r Pwyllgor Perfformiad Ansawdd a Diogelwch.

## Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth

- 109 Mae Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd mewn cysylltiad ag ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn cwrdd bob deufis. Yn ystod y pandemig fe wnaeth y Pwyllgor gynyddu amllder cyfarfodydd pan dybiwyd fod hyn yn briodol. Fe wnaethom arsylwi ar y Pwyllgor sawl tro a chanfod bod aelodau annibynnol yn herio ac yn craffu'n dda.

## Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

- 110 Fe wnaeth ein gwaith ystyried a yw trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ar lefel weithredol a strategol yn rhoi pwyslais digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.
- 111 Canfuom fod **agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dod yn fwy hylaw ac yn canolbwyntio ar faterion allweddol. Fodd bynnag, mae amseroldeb rhai data a gwybodaeth yn creu her i waith craffu effeithiol.**

## Sylw i faterion ansawdd a diogelwch cleifion

- 112 Canfuom fod **agendâu cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad yn dod yn fwy hylaw, gyda llai o ddyblygu sylw, ac mae papurau clawr bellach yn canolbwyntio ar faterion allweddol. Fodd bynnag, ceir rhywfaint o wybodaeth nad yw'n amserol.**
- 113 Mae cylch gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Perfformiad a Diogelwch yn enfawr. Yn ein Hasesiad Strwythuredig 2021, canfuom fod gormod o fanylion yn cael eu darparu i'r pwyllgor ynghylch llawer o eitemau, a bod angen gwaith ychwanegol i gytuno ar faint a lefel y manylder sydd ei angen i roi sicrwydd angenrheidiol i'r pwyllgor. Dywedom ni fod angen ystyried sut i grynhoi a chyfosod gwybodaeth orau er mwyn helpu i ganolbwyntio ar faterion allweddol. Yn ystod 2022, rydym wedi gweld gwelliannau, mae cyfarfodydd ar y cyfan yn rhedeg i amser, mae llai o ddyblygu sylw o fewn papurau pwyllgor, ac mae papurau a chyflwyniadau geiriol yn canolbwyntio'n well ar faterion allweddol.
- 114 Rydym yn deall, ar ôl ei weithredu, y bydd y Grŵp Llywodraethu AaD yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau sicrwydd trioglog effeithiol a/neu eithriad wrth adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, ac felly'n sicrhau bod manylion papurau pwyllgor ar lefel addas.
- 115 Bob pedwar mis, mae CGF a GGC ar wahân yn cynhyrchu Adroddiadau Perfformiad Ansawdd a Diogelwch is-adrannol gan ddarparu crynodeb o wybodaeth perfformiad o'i chymharu â metrigau ansawdd a diogelwch allweddol. Mae'r adroddiadau wedi'u strwythuro o amgylch y chwe maes ansawdd a diogelwch (Gofal diogel, Gofal Effeithiol, Gofal Effeithlon, Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, Gofal Amserol a Gofal Teg). Mae'r adroddiadau'n gynhwysfawr yn cwmpasu digwyddiadau, cwynion, risgiau, hawliadau, diweddariadau cynllun archwilio clinigol, profiad defnyddwyr gwasanaethau, canfyddiadau archwilio allanol/cyfweliad a chydymffurfio â hyfforddiant. Mae CGF a GGC yn cyflwyno eu hadroddiadau bob yn ail yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae pob adroddiad yn darparu'r data wedi'i ddilysu sydd ar gael o'r mis diweddaraf. Er enghraifft, cafodd cyfarfod Pwyllgor mis Mai 2022 Adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch CGF a oedd yn cynnwys data mis Chwefror 2022. Er bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am sawl maes o ansawdd a diogelwch, nid yw'r craffu yn gwbl effeithiol os nad yw'r data a'r wybodaeth a gyflwynir mor gyfredol â phosibl (**Argymhelliad 6**).
- 116 Mae adroddiad uchafbwyntiau o'r drafodaeth gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad diweddaraf yn cael ei gyflwyno gan y Cadeirydd i gyfarfod y Bwrdd. Mae gan y Pwyllgor gylch o fusnes sy'n nodi'r hyn y mae'n bwriadu ei gwmpasu ar draws y flwyddyn yn ei gyfarfodydd.

## Gwybodaeth perfformiad ar gyfer craffu a sicrwydd

- 117 Canfuom fod yr **Ymddiriedolaeth yn cynhyrchu llawer o wybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd, ond mae cefnogaeth dadansoddeg data yn gyfyngedig.**

**Byddai cyflwyno dangosfyrddau o ansawdd yn gwella amseroldeb data ac felly'n cryfhau goruchwyliaeth a monitro.**

- 118 Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cyflwyno papur clawr o'r Fframwaith Rheoli Perfformiad ar draws yr Ymddiriedolaeth i bob cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad. Mae'r papur clawr yn tynnu sylw at fetrigau perfformiad allweddol ar draws CGF, GGC, a'r Gweithlu. Pan nad yw perfformiad ar y trywydd iawn, mae'r papur clawr yn crynhoi camau i fynd i'r afael â pherfformiad. Mae adroddiadau perfformiad ar wahân ar gyfer CGF, GGC a'r Gweithlu.
- 119 Roedd yr adroddiadau perfformiad a ddarparwyd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad ym mis Mai 2022, yn cynnwys data o fis Mawrth 2022 (CGF a GGC) a mis Chwefror 2022 (Gweithlu). Felly, nid yw'r data mor amserol ag y gallai fod (**Argymhelliad 6**).
- 120 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi bwriadu gwneud gwelliannau sylweddol i adroddiad y Fframwaith Rheoli Perfformiad ers tro. Cafodd cynnydd ei ohirio oherwydd y pandemig. Fodd bynnag, yn dilyn cyfran gychwynnol o'r gwaith, mae dangosfwrdd cryno bellach wedi'i gynnwys, a gwelliannau wedi eu gwneud i esboniadau o berfformiad a gweithredoedd arfaethedig. Mae rhagor o waith wedi'i gynllunio ar gyfer 2022, er mwyn diwygio'r adroddiad yn llawn a defnyddio adrodd deallusrwydd busnes. Mae'r cynlluniau hefyd yn cynnwys datblygu mwy o fesurau sy'n seiliedig ar ganlyniadau, ychwanegu cymariaethau meincnodi, ac alinio adroddiadau perfformiad â blaenoriaethau strategol. Yn ystod 2022, bwriad yr Ymddiriedolaeth yw datblygu cardiau sgorio perfformiad penodol ar gyfer y Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Pherfformiad, y Bwrdd Rheoli Gweithredol a'r uwch-dimau rheoli is-adrannol. Mae'r dull arfaethedig yn hierarchaeth o fesuriadau perfformiad sy'n briodol i'r gofynion cylch gwaith a chraffu ar bob lefel a bydd y Bwrdd yn cymryd sicrwydd o'r adolygiad manwl a'r her a gyflawnir gan bob lefel islaw.
- 121 Ar hyn o bryd nid oes gan yr Ymddiriedolaeth dîm dadansoddi data pwrpasol sy'n golygu, yn weithredol, bod y cymorth dadansoddi data sydd ar gael i helpu adrannau i reoli eu data yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am gyllid i gynyddu ei swyddogaethau dadansoddi data. Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth ddangosfwrdd byw o ddata perfformiad allweddol.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr** Bydd y tabl hwn yn cael ei gwblhau ar ôl i adroddiad ac ymateb manwl y rheolwyr gael eu hystyried gan y pwyllgor(au) perthnasol.

Argymhelliad	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol

# Atodiad 2

## Canfyddiadau'r arolwg staff

Arddangosyn 3: canfyddiadau'r arolwg staff

	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						Cyfanswm yr ymatebwyr
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	
<b>Datganiadau ynglŷn ag agweddau</b>							
<b>Darparu gofal diogel ac effeithiol</b>							
1. Gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad	35	18	5	3	0	0	61
2. Rwy'n fodlon ag ansawdd y gofal a roddaf i gleifion	28	25	8	0	0	0	61
3. Mae digon o staff yn fy maes/adran waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol	7	20	7	21	6	0	61
4. Mae fy amgylchedd gwaith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol	18	24	10	6	3	0	61

		Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						Cyfanswm yr ymatebwyr
		Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	
<b>Datganiadau ynglŷn ag agweddau</b>								
5.	Rwyf yn cael diweddariadau rheolaidd ynghylch adborth cleifion ar gyfer fy maes/adran waith	12	17	11	14	4	3	61
<b>Rheoli pryderon cleifion a staff</b>								
6.	Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion	21	23	9	1	0	7	61
7.	Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godwyd gan staff	10	20	19	8	3	1	61
8.	Mae fy sefydliad yn annog staff i adrodd am wallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau	30	23	5	0	2	0	60
9.	Mae staff sy'n gysylltiedig â gwall, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad	21	18	15	2	1	4	61

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						Cyfanswm yr ymatebwyr
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	
10. Pan adroddir am wallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion, mae fy sefydliad yn gweithredu i sicrhau na fyddant yn digwydd eto	17	31	8	3	2	0	61
11. Rhoddir adborth i ni am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, damweiniau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yr adroddir amdanynt	13	29	7	8	4	0	61
12. Byddwn yn teimlo'n ffyddiog yn codi pryderon ynghylch arferion clinigol anniogel	22	29	3	2	3	2	61
13. Rwy'n ffyddiog fod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch arferion clinigol anniogel	16	28	10	4	2	1	61
<b>Rheoli pryderon cleifion a staff</b>							

Datganiadau ynglŷn ag agweddau	Nifer y staff yn cytuno neu'n anghytuno â datganiadau						Cyfanswm yr ymatebwyr
	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf	Ddim yn gwybod	
14. Pan adroddir am wallau, damweiniau a fu bro â digwydd neu ddigwyddiadau diogelwch cleifion, mae fy sefydliad yn gweithredu i sicrhau na fyddant yn digwydd eto	17	31	8	3	2	0	61
15. Rydym yn cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, damweiniau a fu bron â digwydd a digwyddiadau yr adroddir amdanynt	13	29	7	8	4	0	61
16. Byddwn yn teimlo'n ffyddiog yn codi pryderon am arferion clinigol anniogel	22	29	3	2	3	2	61
17. Rwy'n ffyddiog fod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch arferion clinigol anniogel	16	28	10	4	2	1	61







Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg  
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English..